

**y Gaer Interpretation Project for Powys CC**

**English to Welsh translation request No 24**

English	Cymraeg
<b>Int 334 DL25</b>	
<b>Farmer's Smock</b>	<b>Smoc Ffermwr</b>
Agricultural smocks were most common in eastern parts of Wales in the nineteenth century. Smocks were usually made at home by the mother or wife of the wearer. This fine Brecknockshire example is made of unbleached linen and embroidered in a double linen thread, with designs in chain and lattice stitch. <b>Gift R. Powell – 1981.1</b>	Roedd smociau amaethyddol yn cael eu gwisgo fwyaf yn nwyrain Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd smoc yn cael ei gwneud gartref gan fam neu wraig yr un oedd yn ei gwisgo. Mae'r enghraifft wych hon o Sir Frycheiniog wedi'i gwneud o liain heb ei gwynnu. Mae wedi'i brodio mewn edau llin ddwbl, gyda phatrymau mewn pwythi cadwyn a phwythi dellt. <b>Rhodd oddi wrth R. Powell – 1981.1</b>
<b>Int341 DL27</b>	
<b>Hay workhouse mangle</b>	<b>Mangl o Dloty'r Gelli Gandryll</b>
Mind your fingers! This late nineteenth century mangle was used for laundry in Hay-on-Wye workhouse, home to nearly a hundred people too poor to support themselves. Hand-washed garments were fed between the rollers and the handle turned to squeeze out the water. Changing the weights adjusted roller pressure. <b>Gift Cockcroft House – 427.5</b>	Gwyliwch eich bysedd! Defnyddiwyd y mangl hwn o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar gyfer golchi dillad yn nhloty'r Gelli Gandryll. Roedd y tloty yn gartref i bron cant o bobl a oedd yn rhy dlawd i gynnal eu hunain. Roedd dillad a oedd wedi eu golchi â llaw yn cael eu bwydo rhwng y rholeri. Wedyn roedd y braich yn cael ei droi i wasgu'r dŵr allan. Roedd newid y pwysau'n newid pwysedd y rholeri. <b>Rhodd oddi wrth Tŷ Cockcroft - 427.5</b>
<b>Int 355 DL39</b>	
<b>Eel Spear</b>	<b>Gwaywffon llysywennod</b>
Eel spears are made of flat metal tines (prongs) usually with rounded ends set close together. They are designed to catch eels by holding them between the tines without damaging them and thereby reducing their value. These differ from salmon spears which have barbed points to pierce and secure the fish. <b>Gift D. Hopkins, Talgarth - 333</b>	Gwneir gwaywffyn llysywennod o ddannedd metal gwastad, fel arfer gyda phennau crynion wedi eu gosod yn agos at ei gilydd. Maent wedi eu dylunio i ddal llysywennod trwy afael ynddynt rhwng y dannedd, fel nad ydynt yn cael eu niweidio ac felly'n lleihau eu gwerth. Mae'r gwaywffyn hyn yn wahanol i waywffyn eog, sydd â phigau bachog i dreiddio i'r pysgod a gafael ynddynt yn dynn. <b>Rhodd D. Hopkins, Talgarth - 333</b>
<b>Int2 DL38/39</b>	
<b>Brass fishing reel</b>	<b>Rîl bysgota bres</b>
Fishing as a sport developed rapidly in the 18 <sup>th</sup> century and with it the provision of improved rods and reels. This reel is of brass and is inscribed 'John Wever Price,	Datblygodd pysgota fel camp yn gyflym yn y ddeunawfed ganrif ac yn sgil y twf yma roedd riliau a gwialenni gwell i'w cael. Mae'r rîl hon wedi'i gwneud o bres gydag arysgrifen 'John

1773'. It is fitted with a nut and a screw for fixing the reel to the fishing rod. <b>Gift G. Hyatt Williams, Brecon – 263.1</b>	Wever Price, 1773'. Mae wedi'i gosod gyda nyten a sgriw i osod y rîl wrth y wialen bysgota. <b>Rhodd G. Hyatt Williams, Aberhonddu - 263.1</b>
<b>Int60 DL38/39</b>	
<b>Brown trout</b>	<b>Brithyll</b>
Wild brown trout caught in the Crai Reservoir in 1917 weighing 6 lbs 3 oz. The reservoir is part of the Cnewr Estate and was created in 1907 when it was stocked with trout. This trout would have grown to this large size due to lack of competition. <b>Gift T.A. Morgan, Abercraive – R667</b>	Brithyll gwylt yw hwn gafodd ei ddal yng nghronfa Crai ym 1917 ac roedd yn pwysio chwe phwys, tair owns. Mae'r gronfa'n rhan o Ystad Cnewr ac fe'i crëwyd ym 1907 pan gafodd ei llenwi â brithyllod. Byddai'r brithyll hwn wedi tyfu i'r maint yma oherwydd diffyg cystadleuaeth. <b>Rhodd B.A. Morgan, Aber-craf - R667</b>
<b>Int235 DL03</b>	
<b>Stevengraph of Queen Victoria</b>	<b>Stevengraff o'r Frenhines Fictoria</b>
'Stevengraphs' were invented in the 1860s in Coventry by Thomas Stevens and are silk pictures woven on a Jacquard Loom. His designs were often used to make greeting cards and these later became collectable items. This card with a portrait of Queen Victoria was bought at Oswald Jackson's photographic shop in Brecon.  <b>670</b>	Dyfeiswyd y 'Stevengraff' yn yr 1860au yng Nghofentri gan Thomas Stevens. Lluniau sidan ydyn nhw sydd cael eu gwehyddu ar Wydd Jacquard. Defnyddid ei ddyluniadau'n aml i wneud cardiau cyfarch a ddaeth yn gasgladwy yn ddiweddarach. Prynwyd y cerdyn hwn gyda darlun o'r Frenhines Fictoria yn siop ffotograffig Oswald Jackson yn Aberhonddu.  <b>670</b>
<b>Int238 DL03</b>	
<b>Suffragette in-the-box</b>	<b>SWFFRAGÉT YN-Y-BOCS</b>
This is a rare object used as an early form of hate mail, directed against suffragettes who campaigned for votes for women in the early 20 <sup>th</sup> century. Opponents put it through a letterbox to intimidate the lady of the house. The spring-loaded doll, showing a suffragette as an unpleasant woman, jumped out when the box was opened.  <b>1979.A.77</b>	Gwrthrych prin yw hwn a ddefnyddid fel dull cynnar o bost casineb, wedi'i gyfeirio at swffragetaid a fu'n ymgyrchu dros bleidleisiau i ferched yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif. Byddai gwrthwynebwyr yn rhoi'r bocs trwy'r blwch llythyrau i frwychu merch y tŷ. Roedd y ddol yn dangos swffragét fel rhywun annymunol ac roedd wedi'i llwytho â sbring. Byddai'n llamu allan yn ddisymwth pan agorwyd y blwch.  <b>1979.A.77</b>
<b>Int244 DL03</b>	
<b>Silhouette of Sarah Siddons Unknown artist, watercolour</b>	<b>Amlinell o Sarah Siddons gan arlunydd anhysbys, dyfrliw</b>
Sarah Siddons, the most famous of tragic actresses, was born and christened in Brecon in 1755. She was the eldest	Cafodd Sarah Siddons, y fwyaf enwog o actorion trasig, ei geni a'i bedyddio yn Aberhonddu ym 1755. Hi oedd merch hynaf

<p>daughter of the Kembles' touring theatrical family. This delicate image, dated around 1783, may show her in one of her famous roles, perhaps as Euphrasia in the <i>Grecian Daughter</i>.</p> <p><b>Gift J.Morgan – R609</b></p>	<p>teulu theatrig teithiol y Kembles. Mae'r darlun cain hwn yn dyddio o tua 1783 ac mae'n debyg ei fod yn dangos Siddons mewn un o'i rhannau enwog, efallai fel Euphrasia ym mherfformiad y <i>Grecian Daughter</i>.</p> <p><b>Rhodd J.Morgan – R609</b></p>
<b>Int308 DL</b>	
<p><b>Brecon Cathedral</b> <b>Sam Garratt, oil</b></p>	<p><b>Eglwys Gadeiriol Aberhonddu</b> <b>Sam Garrat, olew</b></p>
<p>Sam Garratt, the Brecon artist, painted this interior of Brecon Cathedral at about the time it became a Cathedral in 1923. It shows the east end before the new reredos (an ornamental screen) was installed in 1937. This picture hung in the office of Howard Llewelyn, solicitor and county councillor, in the Bulwark, Brecon.</p> <p><b>Gift Family of Howard Llewelyn – 2019.46</b></p>	<p>Peintiodd Sam Garratt, arlunydd o Aberhonddu, y darlun mewnol hwn yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu pan ddaeth yn Eglwys Gadeiriol ym 1923. Mae'n dangos pen dwyreiniol yr adeilad cyn gosod y gwrthgefn allor newydd (sgrin addurnol) ym 1937. Roedd y darlun hwn yn cael ei arddangos yn swyddfa Howard Llewelyn, cyfreithiwr a chyngorydd sir, yn y Gwrthglawdd, Aberhonddu.</p> <p><b>Rhodd oddi wrth deulu Howard Llewelyn – 2019.46</b></p>
<b>Int201 DL07</b>	
<p><b>Abacus</b></p>	<p><b>Abacws</b></p>
<p>An Abacus is a counting tool that is the precursor to modern calculators. They have been used since before the modern numeral system was adopted and can be utilised for anything from simple addition, to the calculation of square roots. This Victorian example comes from the old school in Talybont.</p> <p><b>Gift Mr Rolfe, Talybont School – 1981.7</b></p>	<p>Teclyn cyfrif yw abacws a rhagflaenydd y gyfrifiannell fodern. Roedden nhw'n cael eu defnyddio am ganrifoedd cyn mabwysiadu'r system rifol fodern. Gellir eu defnyddio am unrhyw beth o adio syml i gyfrif ail israddau. Daw'r enghrafft Fictoraidd hon o'r hen ysgol yn Nhal-y-bont.</p> <p><b>Rhodd oddi wrth Mr Rolfe, Ysgol Tal-y-bont – 1981.7</b></p>
<p><b>Cyflwynwyd gan:</b> <b>Liz Bickerton</b></p>	<p><b>Dyddiad:</b> 04/05/2020</p>
<p><b>GEIRIAU 533</b></p>	
<p><b>Cwblhawyd gan:</b></p>	